# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD (PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET AR ATAL A DIWYGIO GOFAL CYMDEITHASOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE, DDYDD LLUN, 25 EBRILL 2016 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd V. M. Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C. Anderson | U. C. Clay | C. R. Doyle |
| E. J. King | P. Lloyd | R. V. Smith |
| T. M. White | | |

**Swyddog(ion)**
Jeremy Parkhouse – Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Swyddog(ion): Rachel Evans

36 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd buddiannau.

37 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2016 yn gofnod cywir.

38 **ADOLYGIAD COMISIYNU O GANOLFANNAU DYDD - ADBORTH. (LLAFAR)**

Cyflwynodd y cadeirydd Gam 2 Adroddiad Adolygu'r Porth Comisiynu – Adolygiad o Wasanaethau Dydd Pobl Hŷn a Cham 2 Adroddiad Adolygu'r Porth Comisiynu – Adolygiad o Ofal Cartref. Ychwanegodd ei bod yn bwysig i aelodau gael cyfrannu'n uniongyrchol ynghylch y materion a oedd yn cael eu trafod.

Trafododd y pwyllgor yr adroddiadau mewn grwpiau a rhoi adborth i'r cadeirydd. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol: -

- Gwasanaethau Dydd Pobl Hŷn a pham nad oedd y model gwasanaeth wedi newid i ystyried newid yn lefel yr anghenion;
- Sicrhau nad oedd modelau cyfleoedd dydd hygyrch yn cymryd lle gwasanaethau dydd a'r angen i fod yn bwyllog iawn;
- Datblygu amrywiaeth y cyfleoedd sydd ar gael i ofalwyr;
- Canolbwyntio ar staff, y gwasanaethau a ddarperir, morâl staff, morâl a lles defnyddwyr gwasanaeth;

- Darpariaeth fewnol a'r gostyngiad mewn defnydd er gwaethaf bod 112 o bobl ar restr aros, a gefnogwyd gan y ffigurau a ddarparwyd ac roedd yn ymddangos bod y gwasanaeth yn cael ei wanhau'n fwriadol;
- Pobl yn aros ar restrau aros er gwaethaf bod gwasanaethau'n cael eu cau;
- Diogelu pobl ddiamddiffyn;
- Yr effaith gadarnhaol y gall canolfannau dydd ei chael ar bobl hŷn a'r angen i ddewisiadau fod ar gael i bobl hŷn;
- Gorgyffwrdd rhwng gwaith cysylltwyr cymunedol a chydlynwyr ardaloedd lleol (CALl) a llwyth gwaith llethol CALl;
- Materion cludiant ac argaeledd gwael cludiant cyhoeddus i gymunedau;
- Y ffaith bod defnyddwyr gwasanaeth yn barod i dalu am wasanaethau dydd er mwyn eu hatal rhag cau;
- Cadarnhau pam nad oedd aelodau etholedig yn mynd ar ymweliadau rota mwyach;
- Roedd mynd â gwasanaethau heb ystyried yn ofalus yn annoeth ac yn ateb cyflym;
- Y galw ar wasanaethau yn y dyfodol oherwydd canran amcanestynedig y cynnydd mewn poblogaeth, sef 45% o bobl 85+ oed;
- Perygl colli staff profiadol oherwydd ansicrwydd swyddi;
- Yr angen i wrando ar ddefnyddwyr gwasanaeth;
- Diffyg sgiliau TG pobl hŷn;
- Nid yw'r gwasanaeth presennol yn cael ei ddarparu'n wastad ar draws y sir yn ddaearyddol sy'n effeithio ar fynediad i ddefnyddwyr gwasanaeth gan deulu a ffrindiau;
- Pwysigrwydd cadw pobl yn eu cymunedau;
- Siarter Gofal Moesegol;
- Y rhesymau pam nad oedd cyfeiriadau'n cael eu gwneud;
- Goblygiadau'r Cyflog Byw;
- Rheoli disgwyliadau defnyddwyr/darparwyr gwasanaeth;
- Perygl y bydd prif ddarparwr gwasanaethau gofal iechyd yn tynnu allan o'i gontract gyda'r awdurdod;
- Materion sy'n ymwneud â darparu gofal cartref, yn enwedig staff sy'n teithio, parcio ger eiddo defnyddwyr gwasanaeth a rhiciau amser i staff ymgymryd â'u dyletswyddau;
- Pwysigrwydd cael manylion cytundebau lefel gwasanaeth clir yn ystod y broses dendro;
- Adroddiad Craffu yn y Cartref.

Dywedodd y cadeirydd fod angen rhagor o drafodaethau yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

**PENDERFYNWYD** rhoi'r diweddaraf ynghylch yr Adolygiad Comisiynu Gwasanaethau Dydd Pobl Hŷn a'r Adolygiad Comisiynu Gofal Cartref yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

39 **ADOLYGIAD COMISIYNU O IECHYD MEDDWL, ANABLEDDAU DYSGU AC ANABLEDDAU CORFFOROL - ADBORTH. (LLAFAR)**

**PENDERFYNWYD** rhoi adborth yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

40 **ADOLYGIAD COMISIYNU O OFAL PRESWYL - ADBORTH. (LLAFAR)**

**PENDERFYNWYD** rhoi adborth yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

41 **Y POLISI CYLLID SY'N YMWNEUD Â DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLES (CYMRU) 2014 - Y DIWEDDARAF. (LLAFAR)**

**PENDERFYNWYD,** yn absenoldeb y swyddog gwasanaethau cymdeithasol, ohirio'r eitem i'r cyfarfod nesaf a drefnir.

42 **CYNLLUN GWAITH**

Cyflwynodd y cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2015/16.

Pwysleisiodd ei bod yn bwysig i'r pwyllgor gael cyfraniad i'r adolygiadau comisiynu a bod gan aelodau gyfle i drafod y materion a chyfrannu'n uniongyrchol.

**PENDERFYNWYD** ar y canlynol: -

1) Nodwyd cynnwys yr adroddiad;
2) Rhoi'r diweddaraf ar Adolygiad Comisiynu Canolfannau Dydd yn y cyfarfod nesaf a drefnir;
3) Rhoi'r diweddaraf ar Adolygiad Comisiynu Gofal Cartref yn y cyfarfod nesaf a drefnir;
4) Rhoi'r diweddaraf ynghylch y Polisi Cyllid sy'n ymwneud â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn y cyfarfod nesaf a drefnir;
5) Rhoi adborth ar y sefyllfa bresennol ynghylch yr Adolygiad Comisiynu Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu ac Anableddau Corfforol yn y cyfarfod nesaf a drefnir;
6) Rhoi adborth ar y sefyllfa bresennol ynghylch yr Adolygiad Comisiynu Gofal Preswyl yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.25 pm

**CADEIRYDD**